# Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Dinas Casnewydd

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4730A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam mae comisiynu yn bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a sut mae da yn edrych 5

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad 5

Yr hyn a ganfuwyd gennym 6

Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor 8

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio 9

# Adroddiad cryno

## Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau a geir yn:

- adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (neu beidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau;
- adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Gall yr archwiliad hwn hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:

- rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau.
- esbonio sut mae cynghorau'n mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arferion/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

4 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

## Pam mae comisiynu yn bwysig

5 Comisiynu yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i ddylunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu. Mae'n dechrau trwy ddiffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ac yn gorffen pan fydd y Cyngor yn trefnu ei ddull cyflawni. Er enghraifft, drwy sefydlu tîm cyflawni yn fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.

6 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu leihau effaith a gwerth am arian gwasanaethau, hyd yn oed os yw'r prosesau sy'n dilyn, fel caffael a rheoli contractau, yn gadarn.

# Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a sut mae da yn edrych[1]

7 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac i ba raddau y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

8 Nid oedd yr archwiliad hwn yn cwmpasu trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.

9 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: **Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

10 Gwnaethom ddefnyddio'r meini prawf archwilio a nodir yn Atodiad 1, sydd hefyd yn dangos sut mae'r meini prawf yn cysylltu â'r cwestiynau archwilio. Llywiwyd hyn gan ein gwybodaeth gronnol yn ogystal â'r hierarchaeth gwestiynau a'r dangosyddion cadarnhaol a ddatblygwyd gennym i gefnogi ein harchwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

# Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad

11 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweliadau gyda'r uwch swyddog(ion) sy'n gyfrifol am ddatblygu dull strategol y Cyngor o gomisiynu. Fe wnaethom hefyd gyfweld ag uwch swyddogion sy'n gyfrifol am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu'n allanol.

12 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, gwnaethom gynnal profion sampl o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, gwnaethom ddewis sawl gwasanaeth y mae'r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau'n allanol ar eu cyfer ac archwilio'r trefniadau comisiynu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith. Y sampl o wasanaethau a gomisiynir a adolygwyd gennym yn y Cyngor oedd gwasanaeth teuluoedd a chymunedol a gomisiynwyd yn 2023 a gwasanaeth rheoli eiddo sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom ymgymryd â'r gwaith hwn rhwng mis Mawrth a mis Awst 2024.

[1] Diffinnir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arferion gorau, neu 'yr hyn a allai fod', o dan amodau gwell.

13 Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ym mhob un o’r 22 o brif gynghorau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu llunio adroddiad cenedlaethol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

14 Yn gyffredinol, canfuom fod **gan y Cyngor drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth gomisiynu ei wasanaethau ond nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n gyson.** Nodwn isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

Nid yw'r Cyngor yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau comisiynu yn gyson ond mae wedi diweddaru ei adnoddau rheoli prosiectau i gefnogi'r broses hon. Comisiynwyd un o'r gwasanaethau a adolygwyd gennym yn 2023 ac ni lwyddodd i ddangos yn glir bod arfarniad o ddewisiadau comisiynu wedi'i gynnal. Mae'r gwasanaeth arall a adolygwyd gennym yn cael ei gomisiynu ar hyn o bryd ac roedd yn gallu dangos bod arfarniad cynhwysfawr o ddewisiadau wedi'i gynnal gan ddefnyddio adnoddau rheoli prosiect y Cyngor sydd wedi'u diweddaru. Mae cael dealltwriaeth glir wedi’i dogfennu bob tro o pam mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu, yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, a'r dewisiadau gwahanol sydd ar gael yn elfennau pwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

15 Nid yw dull y Cyngor o ystyried y costau a’r manteision dros y tymor hir yn gyson. Er enghraifft, mewn un gwasanaeth a gomisiynir gwelsom dystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried costau a manteision y dewisiadau o safbwynt darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd dros y tymor byr, canolig a hir. Fodd bynnag, yn y maes gwasanaeth arall a adolygwyd gennym, roedd y Cyngor wedi derbyn cyfyngiadau cylch cyllid grant yn hytrach nag ystyried effaith hirdymor dewisiadau yn erbyn blaenoriaethau ehangach ar gyfer y gwasanaeth. Felly, ni all y Cyngor fod yn sicr ei fod yn sicrhau gwerth am arian yn gyson dros y tymor hir wrth gomisiynu gwasanaethau.

16 Mae cynllunio tymor hir hefyd yn bwysig er mwyn deall yr adnoddau y bydd eu hangen o ran y dewisiadau comisiynu. Mewn un gwasanaeth a gomisiynir a adolygwyd gennym, canfuwyd bod y Cyngor wedi cynhyrchu dadansoddiad ariannol a oedd yn cynnwys amcangyfrif o gostau pontio i'r model darparu gwasanaethau newydd. Yn y gwasanaeth arall a adolygwyd gennym, ni ystyriwyd amrywiaeth o senarios cyllidebol yn y dyfodol. Wedi hynny, yn dilyn setliad grant llai ffafriol, bu’n rhaid i'r Cyngor leihau cyllideb a gofynion y gwasanaeth ar fyr rybudd. Bydd ystyried goblygiadau tymor byr a thymor hir penderfyniadau comisiynu a'r adnoddau sydd eu hangen yn gyson yn helpu i roi sicrwydd i’r Cyngor ei fod yn sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae darparu gwasanaethau'n dibynnu'n helaeth ar gyllid grant a all fod yn fwy ansicr.

17 Mae gan y Cyngor Reolau Sefydlog ar gyfer Contractau sy'n nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu defnyddio i asesu gwerth am arian gwasanaethau a gaffaelir.

Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro cynnydd yn gyson yn erbyn y canlyniadau a fwriedir ar gyfer y gwasanaethau a gomisiynir ganddo. Er enghraifft, mewn un gwasanaeth a adolygwyd, roedd trefniadau monitro'r Cyngor wedi'u cyfyngu i ddangosyddion yr oedd eu hangen gan y cyllidwr grant yn hytrach na galluogi monitro yn erbyn canlyniadau ehangach y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth. Mae diffyg trefniadau monitro yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gael sicrwydd bod y gwasanaethau a gomisiynir ganddo yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ac yn sicrhau gwerth am arian dros y tymor byr, canolig a hir.

18 Nid yw'r Cyngor yn ystyried yr effaith ehangach y gallai ei wasanaethau ei chael fel mater o drefn oherwydd nid yw'n ystyried amrywiaeth o ddewisiadau comisiynu yn gyson. Roedd un o'r gwasanaethau a adolygwyd gennym wedi ystyried sut roedd y gwasanaeth a gomisiynwyd yn cefnogi amcanion llesiant y Cyngor a rhai sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Nid oedd y gwasanaeth arall a adolygwyd gennym wedi cynnal arfarniad o ddewisiadau cynhwysfawr ac felly nid oedd wedi ystyried yn llawn yr effaith ehangach y gallai'r gwasanaeth a gomisiynwyd ganddo ei chael. Fe wnaeth y gwasanaeth hwn ddangos ystyriaeth o amcanion llesiant trwy ddogfennaeth gaffael. Fodd bynnag, cwblhawyd y ddogfennaeth hon ar ôl i benderfyniad comisiynu i ddefnyddio darparwr allanol gael ei wneud. Mae cael trefniadau ar waith i sicrhau goblygiadau ehangach y gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu yn helpu'r Cyngor i asesu dewisiadau, osgoi dyblygu a nodi nifer o fanteision i wella canlyniadau a sicrhau gwerth am arian.

19 Mae'r Cyngor yn nodi ac yn cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid wrth gomisiynu gwasanaethau. Mae proses asesu effaith y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddangos sut y ceisiwyd ac y defnyddiwyd amrywiaeth o safbwyntiau i lywio penderfyniadau comisiynu. Roedd y ddau wasanaeth a adolygwyd gennym wedi holi barn y rhai yr effeithir arnynt gan wasanaethau a gomisiynir, wedi ymgysylltu â phartneriaid y gallent weithio gyda nhw i wella gwerth am arian ac wedi defnyddio hyn i asesu effaith y gwasanaeth a gomisiynir. Mae gweithio gyda'r partneriaid cywir yn helpu'r Cyngor i roi sicrwydd i'w hun ei fod yn comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ei gymunedau ac felly'n sicrhau gwerth am arian.

20 Mae gan y Cyngor drefniadau i werthuso ei ddull comisiynu ond nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n gyson. Mae'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgwyd mewn meysydd gwasanaeth ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu dogfennu na'u rhannu'n eang ar draws meysydd gwasanaeth eraill. Mae gan y Cyngor dempled Cau Prosiect a Gwersi a Ddysgwyd ond nid yw'r templed hwn yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn i werthuso gwasanaethau a gomisiynir na rhannu gwybodaeth ledled y sefydliad ac yn allanol gyda phartneriaid. Mae gwerthuso, dogfennu a rhannu gwersi a ddysgwyd ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynir yn bwysig er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a pham, osgoi ailadrodd camgymeriadau, a sicrhau gwerth am arian. Bydd gwerthuso pob ymarfer comisiynu gwasanaethau yn helpu'r Cyngor i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau comisiynu cyffredinol.

# Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhelliad ar gyfer y Cyngor**

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Canfuom fod gan y Cyngor drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth gomisiynu gwasanaethau ond nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n gyson. Er mwyn sicrhau bod ei ddull o gomisiynu yn sicrhau gwerth am arian yn gyson, dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn defnyddio prosesau ac offer corfforaethol y Cyngor wrth gomisiynu gwasanaethau. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?

| Cwestiwn Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| A oes gan y Cyngor sail resymegol glir dros gomisiynu gwasanaethau? | A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir y gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham? | • Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' mae angen iddo gomisiynu'r gwasanaethau gan gynnwys:<br>– y canlyniadau/effaith a fwriedir wrth ddarparu'r gwasanaeth<br>– os/sut mae'r gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol |
| | A yw'r Cyngor yn cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o ddewisiadau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr amrywiaeth lawn o ddewisiadau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth – gallai'r dewisiadau gynnwys, er enghraifft:<br>– darpariaeth fewnol,<br>– trefniadau partneriaeth neu ddulliau o gomisiynu o fewn ac ar draws sectorau<br>– allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall drwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall<br>– contractio'r gwasanaeth drwy broses dendro<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried costau a manteision y dewisiadau o safbwynt darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – gan gynnwys dros y tymor byr, canolig a hir<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contractau o fewn ei asesiad o ddewisiadau comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad o risg ar gyfer pob dewis comisiynu fel rhan o'r asesiad o gostau a manteision<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau presennol a thymor hir sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir |
| A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | A yw'r Cyngor yn ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau – h.y. pa mor bell ymlaen y gall / y dylai gynllunio a pham.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn cydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir wrth gynllunio comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys, er enghraifft, wrth bennu'r amserlen ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill |
| | A yw'r Cyngor yn deall y goblygiadau tymor hir o ran adnoddau wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu amrywiaeth o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol i wasanaethau a gomisiynir |
| | A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir? | • Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir<br>• Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys:<br>– costau a manteision;<br>– cynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, canolig a hwy |
| A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai'r gwasanaeth a gomisiynir ganddo eu cael? | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall wneud y cyfraniad mwyaf posibl at amcanion llesiant y Cyngor? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl amcanion llesiant ei hun i sicrhau manteision amryfal, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, ystyried amcanion tymor hwy, cadwyn gyflenwi leol, cydnerthedd y farchnad ac effaith hyd amser contract, bioamrywiaeth, lleihau carbon |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaethau wneud y cyfraniad mwyaf posibl at amcanion llesiant cyrff sector cyhoeddus eraill? | eraill y sector cyhoeddus i sicrhau manteision amryfal ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau wneud y cyfraniad mwyaf posibl at Nodau Llesiant Cenedlaethol? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol i sicrhau manteision amryfal ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |
| A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu'r gwasanaethau a gomisiynir ganddo? | A yw'r Cyngor wedi nodi pwy sydd angen ei gynnwys? | • Mae'r Cyngor yn deall pwy fydd y gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ddadansoddiad rhanddeiliaid neu debyg. |
| | A yw'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl? | • Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cyfranogi i lywio sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig |
| | A yw'r Cyngor yn cydweithio â'r partneriaid cywir? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o ba bartneriaid a phartneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau.<br>• Lle nodir cyfleoedd i wella gwerth am arian drwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn eu dilyn. |
| A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso gwerth am arian ei ddull comisiynu? | A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fel mater o drefn? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull o gomisiynu yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– I ba raddau y mae gwasanaethau a gomisiynir yn cyflawni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod<br>– Gwerth am arian modelau comisiynu a ddewiswyd gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau. |

| | | |
|---|---|---|
| | A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd fel mater o drefn er mwyn llywio ymarferion comisiynu yn y dyfodol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o'i ddull comisiynu yn eang ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.